# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Cynigion i gyflwyno Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr**

**Gorffennaf 2016**

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**: Cynigion i gyflwyno dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) Cymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr. | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: 16/08/01 |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | **Lisa Walters** |
| **Dyddiad**: | **29 Gorffennaf 2016** |
| **Arweinydd polisi**: | Steve Pomeroy |
| **Manylion cyswllt:** | Steve.pomeroy@wales.gsi.gov.uk |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Contractau, tendrau
- ☐ Arall (Nodwch isod)

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**
Dim

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Ymgynghoriad: 15 Medi-22 Rhagfyr 2016
Byddai'r Ddyletswydd Statudol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017

| |
|---|
| **CAM 1: CYNLLUNIO** |
| **Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?** |
| Cyflwyno Gorchymyn i ymestyn swyddogaethau'r tri FRA yng Nghymru mewn perthynas ag argyfyngau i gynnwys ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr.<br><br>Mae Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) eisoes yn ymateb i lifogydd a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â dŵr, er nad oes yna ofyniad statudol penodol iddynt wneud hynny ar hyn o bryd. Ymrwymodd Fframwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub 2016 Llywodraeth Cymru i adolygu ac ymgynghori ar ymestyn swyddogaethau statudol FRAs i gynnwys llifogydd ac achub o ddŵr.<br><br>Byddai cyflwyno dyletswydd statudol ar FRAs i ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr yn ffurfioli'r trefniadau ymateb presennol ar gyfer llifogydd ac achub o ddŵr ar gyfer yr FRAs yng Nghymru. |
| **Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**<br>**a**<br>**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?** |
| Rydym wedi ystyried yr achos dros newid, yn ogystal â chwmpas y ddyletswydd arfaethedig:<br><br>Mae'r tri FRA yng Nghymru eisoes yn ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr o fewn eu hadnoddau presennol; er enghraifft, maent i gyd yn ymateb i lifogydd yn rheolaidd. Os byddwn yn dewis gwneud dim, yn y tymor byr byddai ymateb o'r fath yn parhau. Fodd bynnag, yn y tymor canolig i hir, mae yna bosibilrwydd y byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei dynnu'n ôl.<br><br>Y rheswm am hyn yw bod FRAs, yr un fath â sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill, o dan bwysau i leihau costau, ac efallai y byddent yn ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol fel achub o lifogydd a dŵr fel ffordd o wneud hynny. Er y gall hynny fod yn briodol i rai gwasanaethau, ni fyddai'n dderbyniol pe na bai FRAs yn ymateb i lifogydd.<br><br>Yng Nghymru, mae tua 208,500 o eiddo yn wynebu risg llifogydd o afonydd neu'r môr, ac mae tua 163,000 o eiddo yn wynebu risg o lifogydd dŵr wyneb; mae'r risgiau hyn yn debygol o gynyddu yn y tymor hir o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, gyda'r potensial y bydd mwy o achosion o lifogydd difrifol yn y dyfodol. Mae llifogydd difrifol yn peri pryder mawr ac mae'n gallu bod yn fygythiad difrifol i fywydau pobl, yr amgylchedd a'r economi a gwneud difrod mawr i eiddo ac, ar hyn o bryd, nid oes yna ymateb gwarantedig na safonol i ddigwyddiadau o'r fath.<br><br>Rydym wedi ystyried cwmpas y ddyletswydd hefyd; yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r ddyletswydd ar eu FRAs yn ymestyn i ymateb i achosion o lifogydd difrifol yn unig. Er efallai |

| |
|---|
| na fydd achosion o achub o ddŵr ac eithrio dŵr llifogydd yn codi ar yr un raddfa, nac yn cynhyrchu'r un lefel o bryder ymhlith y cyhoedd, mae'r sefyllfaoedd hyn yn dal yn gallu bod yn fygythiad i fywydau'r rhai yn y sefyllfaoedd hynny a bydd FRAs yn defnyddio llawer o'r un technegau, offer a sgiliau i ymateb i'r achosion hyn ag y byddent yn eu defnyddio wrth ymateb i lifogydd. Ni allem gyfiawnhau gwahaniaethu rhwng achub pobl o ddŵr llifogydd ac achub pobl o ddyfroedd mewndirol megis afonydd a llynnoedd. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r ddyletswydd newydd gwmpasu llifogydd ac achosion o achub o ddŵr mewndirol.<br><br>Byddai ffurfioli darpariaeth llifogydd ac achub o ddŵr presennol yr FRAs yn statudol yn diogelu'r trefniadau presennol.<br><br>Byddai'r ddyletswydd yn cael ei chyflwyno gan Orchymyn o dan Adran 9 o Ddeddf 2004 sy'n rhoi grym i Weinidogion Cymru, yn dilyn ymgynghoriad, wneud Gorchymyn sy'n dirprwyo swyddogaethau yn ymwneud ag argyfyngau i FRAs. Byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn canolbwyntio ar argyfyngau llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol fel y nodir yn Adran 58 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?** |
| Ac eithrio cyfieithu dogfennau a gyhoeddir, nid oes yna gysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnig i gyflwyno dyletswydd statudol ar FRAs i ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg neu faterion iaith yn fwy cyffredinol.<br><br>Mae'r FRAs fel sefydliadau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a gymhwysir trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**<br>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg? |
| Dim |
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Yn bennaf, Llywodraeth Cymru, FRAs, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu, yn ogystal â rhai sefydliadau gwirfoddol megis yr RNLI. Ni ragwelir unrhyw ddiddordeb gan grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg.<br><br>Bydd pob dogfen a gyhoeddir yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Rydym yn cynnig ymestyn swyddogaethau'r tri Awdurdod Tân ac Achub (FRAs) yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| mewn perthynas ag argyfyngau i gynnwys ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr. Mae'r ddyletswydd arfaethedig yn canolbwyntio ar argyfyngau llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol sy'n achosi neu'n debygol o achosi marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol. Byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n gyfartal i bob dinesydd a chymuned, beth bynnag fo'u dewis iaith. Ni fydd y dewis o iaith yn effeithio nac yn newid y ddarpariaeth mewn unrhyw ffordd.<br><br>Ni fyddai cyflwyno'r ddyletswydd yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg; bydd yr FRAs fel sefydliad yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a gymhwysir trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | | |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? | | |
| Dim | | |
| **CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU** | | |
| **<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u>**<br>**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.** | | |
| **Effeithiau cadarnhaol:** | | |
| Amherthnasol | | |
| **Effeithiau negyddol:** | | |
| Amherthnasol | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:** | | |
| Amherthnasol | | |
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☐<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ | |
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol | ☐ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

| |
|---|
| ***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,*** **atebwch y canlynol:**<br>**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:** |
| Amherthnasol |
| **Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?** |
| Amherthnasol |
| **CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO** |
| **Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?** |
| Amherthnasol |
| **Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?** |
| Amherthnasol |
| **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| Amherthnasol |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| Amherthnasol |

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br>****Dileer fel y bo'n briodol***:<br>***Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Enw: |
| Steve Pomeroy |
| Adran: |
| EPS – CSD – Y Gangen Gwasanaethau Tân |
| Dyddiad(au): |

| |
|---|
| 29 Gorffennaf 2016 |
| Dyddiadau adolygu: Dim |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. | |
| Llofnodwyd: Martin Swain<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad: 29 Gorffennaf 2016 |